

## Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnal adolygiad ar y cyd o drefniadau llywodraethu ansawdd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

### Cynllun gwella uniongyrchol

**Ysbyty:** Ysbyty'r Tywysog Siarl ac Ysbyty Brenhinol Morgannwg

**Ward/adran:** Adrannau achosion brys

**Dyddiad ymweld:** 23 a 24 Gorffennaf 2019

Fel rhan o gyd-adolygiad Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) a Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) [o drefniadau llywodraethu ansawdd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg](#), nodwyd pryderon gennym yn ymwneud â'r adrannau achosion brys yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg ac Ysbyty'r Tywysog Siarl yn dilyn sesiynau galw heibio a gynhaliwyd gennym ar gyfer staff gwasanaethau llawfeddygol a'r adrannau achosion brys yn y ddau ysbyty ar 23 a 24 Gorffennaf 2019.

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn dweud wrthym am y camau brys y maent yn eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith	Safon	Ymateb naratif y bwrdd iechyd
<b>Lefelau staffio</b> Ar y ddau safle codwyd pryderon ynghylch lefelau staffio nyrsys a meddygon ym mhob rhan o'r adran, gan gynnwys ar gyfer cleifion sy'n cael eu rheoli ar welyau mewn coridorau, ardaloedd pediatrig, yr ardal ddadebru	Safon Iechyd a Gofal 7.1 Y Gweithlu	Nid oes gennym unrhyw broblemau o ran recriwtio staff nyrsio yn yr adrannau brys. Yn ystod y gaeaf rydym yn trefnu bod nyrsys ychwanegol ar ddyletswydd ar ben y staff nyrsio a ariennir fel rhan o'n cynllun gaeaf er mwyn sicrhau bod nyrs bob amser ar gael i

Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith	Safon	Ymateb naratif y bwrdd iechyd
<p>a staff cyflenwi yn ystod y nos. Yn gyson, roedd y staff o'r farn nad oedd y lefelau staffio y cytunwyd arnynt yn ddigonol i reoli lefel ac aciwtedd y gwaith. At hynny, dywedwyd wrthym nad oedd hyd yn oed y lefelau staffio y cytunwyd arnynt yn cael eu cyrraedd yn aml neu eu bod yn cael eu llenwi gan staff heb y set sgiliau na'r profiad angenrheidiol ym maes gofal brys. Hefyd, disgrifiodd y staff sut roeddent yn gweithio o dan yr hyn sy'n cyfateb yn eu barn nhw i bwysau'r gaeaf heb adnoddau ychwanegol nac unrhyw leihad sylweddol yn y galw dros fisoedd yr haf.</p>		<p>gleifion sy'n cael gofal yn y coridorau. O ganlyniad i weithgarwch di-baid a phroblemau o ran adnoddau yn ystod y gwanwyn a'r haf eleni, rydym wedi parhau i drefnu bod y nyrsys ychwanegol hyn ar ddyletswydd am gyfnod estynedig ar gyfer y ddwy adran gan sicrhau bod staff ar gael i'r cleifion hyn a all dreulio amser yn y coridor. Byddwn yn parhau i fonitro hyn yn ddyddiol.</p> <p>Mae cymysgedd sgiliau yn broblem o bryd i'w gilydd pan geir bylchau o ganlyniad i achosion o ganslo y rhoddwyd gwybod amdanynt yn hwyr neu oherwydd salwch. Wedyn, caiff staff o rannau eraill o'r ysbyty eu hadleoli i gefnogi'r rhannau o'r ysbyty sydd â'r angen mwyaf. Fel arfer, daw'r aelodau hyn o staff o rannau o'r ysbyty lle y darperir gofal critigol ac, ar y cyfan, maent yn cefnogi'r ardaloedd dadebru.</p> <p>Mae'r Bwrdd Iechyd yn adolygu ac yn cysoni'r niferoedd staffio yn rheolaidd yn yr adrannau, yn seiliedig ar y lefelau o weithgarwch ar draws y cyfnod o saith diwrnod. Yn ystod cyfnodau o gryn weithgarwch sy'n ymwneud â mân anafiadau, mae gennym ymarferydd brys a chymorth ffisiotherapi dynodedig yn yr ardaloedd mân anafiadau. Mae adolygiad yn cael ei gynnal ar hyn o bryd mewn perthynas â lefelau ymarferwyr nyrsio brys ym mhob un o'r tair adran achosion brys. Dylai'r gwaith hwn gael ei gyflwyno yn ystod y ddau fis nesaf i'w ystyried. Bydd cynyddu'r gweithlu hwn yn cynnig cyfle i ryddhau rhagor o amser staff nyrsio cyffredinol a staff meddygol i gefnogi'r ffrwd mân anafiadau.</p>

Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith	Safon	Ymateb naratif y bwrdd iechyd
		<p>Caiff rotâu nyrsys eu paratoi chwe wythnos ymlaen llaw ac fe'u hadolygir gan yr uwch-nyrs. Wedyn, caiff unrhyw fylchau yn y rotâu eu rheoli gan y gronfa nyrsys drwy drefnu staff am gyfnod estynedig.</p> <p>Mae nifer y nyrsys pediatrig hyfforddedig sydd ar gael yn yr adrannau islaw gofyniad safonol 2018. Mae hyn wedi bod yn her i'r adrannau ac, er mwyn mynd i'r afael â hyn, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg yn ystyried yr opsiwn o ariannu lleoedd er mwyn i'n nyrsys gofal brys oedolion hyfforddedig ddilyn modiwl "Egwyddorion Gofal Brys Plant" fel ateb dros dro.</p> <p>Mae lefelau staffio meddygol yn fwy heriol, yn enwedig ar safle Ysbyty Brenhinol Morgannwg am fod dibyniaeth fawr ar staff asiantaeth. Mae'r gyfradd lenwi a dibynadwyedd staff wedi peri rhai heriau ac ar brydiau ymddengys bylchau ar y rota wythnosol pan na fydd staff sydd wedi'u hamserlennu i fod ar ddyletswydd yn cadw at eu hymrwymiad. Caiff diffygion meddygol eu huwchgylfeirio bob amser at dîm y gyfarwyddiaeth neu'r rheolwr ar alwad a chymerir y camau angenrheidiol i ddarparu staff cyflenwi ar gyfer yr ardal. Mae llawer o'r staff locwm yn adnabyddus ac yn gweithio sifftiau rheolaidd o fewn y sefydliad ac mae gwaith yn cael ei wneud yn nhîm y gweithlu meddygol er mwyn sicrhau bod prosesau mwy cadarn a dibynadwy ar waith ar gyfer trefnu bod staff asiantaeth ar gael.</p>
<b>Cleifion mewn coridorau</b>	Safon Iechyd a	Fel y trafodwyd, roedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf

Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith	Safon	Ymateb naratif y bwrdd iechyd
<p>Roedd neges glir gan bob aelod o'r staff yn ymwneud â rheoli cleifion mewn coridorau yn ddiogel a gydag urddas. Mae hyn bellach yn arfer a dderbynnir yn y Bwrdd Iechyd. Fodd bynnag, codwyd pryderon ynghylch diffyg staff i ofalu am gleifion yn ddiogel, yr amser y mae cleifion yn ei dreulio yn y coridor a'r effaith y mae hyn yn ei chael o ran diwallu anghenion nyrsio a gofal personol y cleifion. Cawsom wybod hefyd ei fod bellach yn arfer cyffredin, oherwydd y pwysau ar adnoddau, i gynnal archwiliadau a rhoi triniaethau yn y coridor yn ogystal ag asesu cleifion yno. Mewn rhai achosion, dywedwyd wrthym fod yr ardaloedd brys megis ardaloedd pediatrig arbenigol yn cael eu defnyddio er mwyn helpu'r cleifion i ddefnyddio'r toiled. Mae hyn yn codi pryderon ynghylch diogelwch, rheoli heintiau a chynnal urddas cleifion. Roedd y staff hefyd yn pryderu ei bod yn ymddangos, yn ymarferol, nad oedd unrhyw derfyn cydnabyddedig ar nifer y cleifion y gellir gofalu amdanynt ar welyau mewn coridorau.</p>	<p>Gofal 3.1 Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol</p> <p>Safon Iechyd a Gofal 4.1 Gofal ag Urddas</p>	<p>Morgannwg wedi mabwysiadu safbwynt o ddim goddefgarwch o ran oedi cyn dadlwytho ambiwlansys. Roedd hyn mewn ymateb i berfformiad Categori 1 gwael iawn yn y maes. O ganlyniad i hyn, roedd y coridorau yn aml yn cael eu defnyddio i gadw cleifion ar adegau o alw uchel. Fel Bwrdd Iechyd Prifysgol byddwn yn adolygu'r dull hwn o weithredu dros y misoedd i ddod, ond ni fyddem am wneud penderfyniad sydyn i wrthdroi hyn oherwydd y canlyniadau y byddai hyn yn eu cael ym mhob rhan o'r system gofal heb ei drefnu. O ganlyniad i'n trafodaeth, rydym wedi sicrhau bod ardaloedd ar y ddau safle a gedwir yn benodol ar gyfer gofalu am gleifion a all gael eu nyrsio yn y coridor. Defnyddir yr ardaloedd hyn i sicrhau urddas cleifion y mae angen archwiliad meddygol neu ymyriadau gofal personol arnynt.</p> <p>Defnyddir y coridorau ar gyfer y cleifion hynny sy'n wynebu'r risg leiaf. Os bydd claf yn gwaethygu wrth gael gofal yn y coridor caiff ei symud ar unwaith i ardal addas er mwyn sicrhau bod y cyfarpar a'r cyfleusterau monitro cywir ar gael. Mae system gwybodaeth yr adran achosion brys yn nodi ble mae'r cleifion yn cael gofal o fewn yr adran ac mae gwaith ychwanegol wedi'i gomisiynu er mwyn i'r cleifion hyn allu cael eu holrhain, er mwyn sicrhau bod gan y Bwrdd Iechyd Prifysgol drosolwg llawn o faint o amser y mae cleifion yn ei dreulio yn yr ardal hon. Mae pob claf presennol sydd wedi aros mwy na 12 awr yn yr adran (waeth ble roedd ei leoliad) yn cael adolygiad o'r gofal a gafwyd er mwyn sicrhau bod yr holl ofal a ddarparwyd (gan gynnwys mesurau lleddfu</p>

Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith	Safon	Ymateb naratif y bwrdd iechyd
		<p>mannau pwysu priodol ac anghenion personol) wedi bod yn briodol ac yn amserol.</p> <p>Rhoddir gwybod am unrhyw ddigwyddiadau anghyffredin drwy system gofnodi Datix. Mae adolygiad cychwynnol o'r achosion hynny a gofnodwyd fel oedi o fewn yr adrannau achosion brys, wedi nodi 78 o ddigwyddiadau a oedd yn ymwneud â diogelwch cleifion ers mis Ebrill 2018 (cyfnod o 13 mis) ar bob un o safleoedd Ysbyty'r Tywysog Siarl ac Ysbyty Brenhinol Morgannwg. Cofnodwyd chwech o'r rhain fel niwed cymedrol ac 1 fel digwyddiad difrifol a chofnodwyd pob un o'r digwyddiadau eraill fel lefel isel o niwed neu ddim niwed. Mae'r rhain yn ymwneud ag achosion o oedi yn gyffredinol o fewn yr adran ac nid ydynt yn ymwneud yn benodol â chleifion yn aros mewn coridorau.</p> <p>Mewn perthynas â chwynion dros yr un cyfnod o 13 mis, cafwyd 5 cwyn ar y ddau safle a oedd yn ymwneud yn benodol â chleifion yn aros mewn coridorau. Daeth pob un o'r cwynion hyn o safle Ysbyty'r Tywysog Siarl. Bydd y Bwrdd Iechyd Prifysgol yn parhau i fonitro'r rhain yn agos wrth i welliannau yn y llif cyffredinol o fewn yr adrannau gael eu blaenoriaethu.</p>
<p><b>Derbyn ambiwlansys wedi'u dargyfeirio</b></p> <p>Cododd aelodau o'r staff bryderon yn gyson ynghylch y trefniadau ar gyfer derbyn ambiwlansys wedi'u dargyfeirio o ardaloedd eraill. Nododd y staff, hyd yn oed pan oedd yr adran achosion brys yn hollol lawn, eu bod</p>	<p>Safon Iechyd a Gofal 3.1 Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol</p>	<p>Fel Bwrdd Iechyd Prifysgol rydym bob amser yn ceisio cydbwysu'r risgiau ym mhob rhan o'r system sy'n golygu bod angen i ni ddargyfeirio ambiwlansys rhwng safleoedd. Nid yw'r penderfyniad hwn byth yn cael ei wneud ar chwarae bach ac mae bob amser yn seiliedig ar ddealltwriaeth lawn</p>

Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith	Safon	Ymateb naratif y bwrdd iechyd
<p>yn dal i dderbyn ambiwlansys wedi'u dargyfeirio er iddynt geisio cyfleu hyn i'r uwch-reolwyr. Arweiniodd hyn at ofal anniogel oherwydd nifer y cleifion sâl iawn o gymharu â nifer y staff a oedd ar gael i ofalu amdanynt.</p>	<p>Safon Iechyd a Gofal 5.1 Mynediad Amserol</p>	<p>o'r galw ym mhob ardal, gan gynnwys y galw disgwylidig am ambiwlansys yn y gymuned. Mae safleoedd bob amser yn cael eu briffio'n llawn cyn unrhyw benderfyniad terfynol i ddargyfeirio ambiwlans. Mae mwy o ambiwlansys wedi cael eu dargyfeirio dros yr ychydig fisoedd diwethaf ar ôl i'r gwasanaeth obstetreg a gynaeoleg symud i Ysbyty'r Tywysog Siarl. Mae dargyfeiriadau i Ysbyty Brenhinol Morgannwg wedi cael eu cynllunio'n rheolaidd er mwyn gwrthbwysu'r pwysau cynyddol ar adran achosion brys Ysbyty'r Tywysog Siarl o ganlyniad i'r newidiadau i wasanaethau. Mae trafodaethau yn parhau ag Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gwasanaethau Ambiwllans Cymru er mwyn ystyried newid mwy parhaol i ffiniau i hwyluso cydbwysedd y gweithgarwch hwn yn y tymor hwy.</p> <p>Defnyddir prosesau uwchgyfeirio lleol er mwyn sicrhau bod cymorth rheoli a nyrsio ychwanegol ar gael yn ystod cyfnodau prysur iawn er mwyn rheoli llif a lliniaru risgiau drwy ganslo gweithgarwch dewisol neu ddefnyddio ardaloedd ychwanegol i greu lle. Mae'r ddau safle aciwt yn cynnal tri chyfarfod safle y dydd er mwyn rheoli'r llif a risgiau ym mhob rhan o'r system.</p>
<p><b>Effaith newidiadau i wasanaethau</b></p> <p>Codwyd nifer o bryderon ynghylch effaith newidiadau i wasanaethau, gan gynnwys ansicrwydd ynglŷn â'r newidiadau arfaethedig i'r adran achosion brys yn</p>	<p>Safon Iechyd a Gofal 7.1 Y Gweithlu</p>	<p>Yn ystod ein trafodaethau gweithredol diweddar ynghylch y newidiadau i'r adran bediatrig a'r adran achosion brys (Rhaglen De Cymru), rydym wedi cydnabod bod angen nodi'r dyddiad ar gyfer cwblhau'r newidiadau hyn er mwyn</p>

Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith	Safon	Ymateb naratif y bwrdd iechyd
<p>Ysbyty Brenhinol Morgannwg a oedd wedi'i gwneud hi'n fwy anodd recriwtio meddygon ymgynghorol. At hynny, roedd pryderon ynghylch y pwysau ychwanegol ar yr adran achosion brys yn Ysbyty'r Tywysog Siarl, heb i gymorth nac adnoddau ychwanegol gael eu darparu, oherwydd y galw cynyddol ar y gwasanaeth strôc presennol a'r newid i wasanaethau obstetreg a gynaeoleg dan arweiniad meddygon ymgynghorol o Ysbyty Brenhinol Morgannwg.</p>		<p>rhoi rhywfaint o sicrwydd i'r staff ynglŷn â dyfodol gwasanaethau yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg.</p> <p>Mae'n hanfodol nodi'r amserlen a goblygiadau hyn i'r staff a'r gwasanaethau yn y dyfodol yn glir, er mwyn cynnal hyder y staff a pharhau i ymgysylltu â nhw.</p> <p>Bydd manylion pellach ynghylch y newidiadau tymor hwy i wasanaethau'r adran achosion brys ym mhob rhan o'r sefydliad yn dechrau'n fuan. Mae ymrwymiad i sicrhau y caiff y staff eu cynnwys yn llawn yn y newidiadau hyn. Mae'r broses o adolygu'r llwybrau gynaeolegol a'u datblygu ymhellach o ganlyniad i newidiadau diweddar yn mynd rhagddi ac mae'n faes ailgynllunio allweddol i dîm y gyfarwyddiaeth.</p>
<p><b>Cymorth staff</b></p> <p>Roedd yn amlwg bod y staff y gwnaethom siarad â nhw yn unigolion ymroddedig iawn sy'n gweithio'n galed ac sy'n cefnogi ei gilydd fel tîm mewn amgylchedd gwaith heriol. Fodd bynnag, roedd morâl y staff yn isel iawn, gyda'r staff yn teimlo mai prin bod y pwysau eithafol roeddent yn gweithio oddi tanynt yn cael eu cydnabod gan y rheolwyr. Dywedodd sawl aelod o'r staff wrthym eu bod wedi profi lefelau uchel o orbryder ynghylch dod i'r gwaith oherwydd y pwysau a'r pryderon ynghylch diogelwch y cleifion y byddent yn dod ar eu traws. Dywedodd y staff wrthym yn gyson eu bod wedi codi pryderon gyda'r rheolwyr ond, er bod rhai yn teimlo bod</p>	<p>Safon Iechyd a Gofal 7.1 Y Gweithlu</p>	<p>Cyfyngedig fu presenoldeb rheolwyr o fewn yr adrannau dros y chwe mis diwethaf oherwydd salwch hirdymor. Caiff y sefyllfa hon ei datrys yr wythnos hon yn dilyn penodiad rheolwr newydd i'r maes hwn. Bydd hyn yn cynnig cyfle i gynnwys staff unwaith eto mewn sgrymiau a gynhelir ddwywaith y dydd, a ddylai wella cyfathrebu a gallu'r staff i godi pryderon a sicrhau y gweithredir ar y pryderon hyn ar unwaith. Caiff pwysigrwydd cofnodi digwyddiadau ar Datix ei ailbwysleisio hefyd er mwyn sicrhau bod y staff yn teimlo'n hyderus yn codi pryderon.</p> <p>Mae cynllun peilot diweddar wedi dechrau yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg, drwy gyflwyno hyrwyddwr llesiant. Mae'r aelod hwn o'r staff yn cyfarfod â chydweithwyr yn yr</p>

Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith	Safon	Ymateb naratif y bwrdd iechyd
<p>y rheolwyr wedi gwrandio arnynt, nid oedd camau yn cael eu cymryd yn amserol o ganlyniad i hynny. O ran diwylliant, esboniodd y staff hefyd fod yr uwch-reolwyr wedi'u hannog i beidio â defnyddio Datix i gofnodi digwyddiadau yn ymwneud â'r nifer fawr o gleifion sy'n cael gofal mewn coridorau heb ddigon o staff i ofalu amdanynt yn ddiogel. Yn gyffredinol, roedd yn destun pryder mawr i ni glywed bod y staff ar y ddau safle yn nodi'n gyson bod yr arfer hwnnw'n anniogel, ond eu bod yn teimlo na allent wneud mwy i uwchgyfeirio eu pryderon.</p>		<p>adran achosion brys bob mis er mwyn trafod amrywiaeth o faterion, gan gynnwys pryderon y staff, pwysau gwaith a mentrau i wella'r amgylchedd gwaith. Caiff y cynllun peilot hwn ei werthuso ar ôl cyfnod o chwe mis gyda'r bwriad o gyflwyno'r fenter hon yn yr adrannau eraill. Gwneir nodiadau ffeil o drafodaethau a chymerir camau i gofnodi unrhyw bryderon a godwyd ar Datix a gweithredu ar faterion yn briodol.</p> <p>Fel uwch-dîm nyrsio rydym yn bwriadu ailgyflwyno sesiynau galw heibio gweithredol ym mhob adran er mwyn hwyluso ymgysylltu â'r staff a chyfleoedd i godi pryderon yn uniongyrchol. Byddwn hefyd yn cyflwyno "arolygon amser real cydweithredol o brofiad y claf" yn y ddwy adran er mwyn sicrhau ein bod yn nodi pryderon cleifion ac yn gweithredu arnynt.</p> <p>Yn ogystal â'r uchod, ar hyn o bryd rydym yn cael cymorth gan Uned Gyflawni GIG Cymru o ganlyniad i'n pryderon ynghylch lefelau gweithgarwch a pherfformiad (yn enwedig yn Ysbyty'r Tywysog Siarl). Hyd yma, ni chodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol ac rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda'r Uned Gyflawni ar gynllun gweithredu cadarn er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir gennym yn ddiogel ac yn effeithiol.</p>



Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (priflythrennau): Sharon Hopkins**

**Swydd: Prif Weithredwr Dros Dro, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg**

**Dyddiad: 8 Awst 2019**